# Dyfodol Addysg Drydyddol yng Nghymru

## ffurflen ymateb

Enw’r Sefydliad: **Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch**

E-bost / rhif ffôn: 01452 557000

Eich cyfeiriad: Tŷ Southgate, Stryd Southgate, Caerloyw GL1 1UB

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 27ain Mawrth 2026 i:

Strategaeth a Chyllido

Cyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

**CAERDYDD**

CF10 3NQ

neu wedi'i gwblhau'n electronig a'i anfon at:

e-bost: Addysg Drydyddol.Ymgynghoriadau@llyw.cymru

# Anhysbysrwydd

Mae’n bosibl y bydd ymatebion i’r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi. Bydd eich ymateb yn anhysbys. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr-yn-ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.

| | |
|---|---|
| Rwy'n cytuno i'm henw gael ei gyhoeddi ochr-yn-ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn. | |

Gwybodaeth ychwanegol

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i:

- gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a chael mynediad iddo
- gofyn i ni gywiro unrhyw beth sy’n anghywir yn y data hwnnw
- (o dan rai amgylchiadau) gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) cael eich wedi’i 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) cludo eich data
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Mae'n debygol y bydd ymatebion i'r galw am dystiolaeth yn cael eu cyhoeddi.

Am fanylion pellach am y wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a'i defnydd ohoni, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: swyddog.diogelu.data@llyw.cymru

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: ico.org.uk

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarparwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig i ymgymryd â'r gwaith hwn (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori).

Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae hefyd yn bosibl y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn llawn.

Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r mudiad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni mewn ysgrifen pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna byddwn yn eu cuddio cyn mynd ati i gyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os cyhoeddir eich manylion fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna cedwir yr adroddiadau cyhoeddedig hyn am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na 3 blynedd.

## Cyfranogiad

1. Pa dystiolaeth bellach sydd ar gael ynghylch cefndiroedd a llwybrau dysgwyr ifanc sy'n mynd i'r coleg ar gymwysterau lefel is? Ai dyma'r llwybrau cywir i'r dysgwyr hyn?

Mae angen canolbwyntio ar sicrhau bod llwybrau wedi'u mynegi'n glir, bod dysgwyr yn eu deall, a'u bod yn cael eu cefnogi gan lwybrau dilyniant cryf a chefnogaeth i ddysgwyr, yn hytrach na cheisio rhagnodi un llwybr gorau. Bydd hyn hefyd yn gofyn am well rhannu data a mewnwelediad ar lefel y system i gynorthwyo â dealltwriaeth gliriach o lwybrau dysgwyr, cynnydd a chanlyniadau, ac i alluogi goruchwyliaeth effeithiol o'r system a gwelliant parhaus.

Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw dysgwyr ifanc sy'n dechrau yn y coleg ar gymwysterau lefel is yn grŵp unffurf. Mae'n debygol bod llawer wedi profi amhariad i'w haddysg, amddifadedd, cyrhaeddiad blaenorol gwannach neu rwystrau eraill sy'n effeithio ar barodrwydd i symud ymlaen. Yn fwy cyffredinol, mae anghydraddoldebau sy'n ymwneud ag amddifadedd, rhywedd ac anabledd yn parhau i gael effaith ar fynediad a chanlyniadau ar draws y system drydyddol.

Mae yn gyd-destun strwythurol ehangach hefyd. Mae Cymru'n parhau i wynebu heriau o ran cyrhaeddiad Lefel 3 a mynediad i addysg uwch yn 18 oed, o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Ar yr un pryd, mae'n ymddangos bod cyfranogiad mewn addysg bellach yn cynyddu, tra bod darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion ar drai. Mae hyn yn awgrymu bod llwybrau i golegau ar lefel is yn dod yn rhan gynyddol arwyddocaol o'r dirwedd ôl-16.

O safbwynt ansawdd, y mater allweddol yw, yn hytrach na bod y llwybrau hyn yn gywir neu'n anghywir yn eu hanfod, a ydynt wedi'u cynllunio a'u cefnogi'n ddigon da i alluogi dilyniant. Gall llwybrau galwedigaethol ar lefel is gynnig cyfleoedd gwerthfawr, ond lle mae cyfraddau dilyniant yn wannach a dargadwedd myfyrwyr yn is, mae achos cryf dros asesiad diagnostig, cymorth dysgu a llwybrau dilyniant strwythuredig. Mae'n debyg y bydd gwella dargadwedd myfyrwyr ar lefelau is yn bwysig os yw Cymru am godi lefelau cymwysterau yn gyffredinol. Mae angen i lwybrau hefyd arwain yn glir at astudiaeth bellach a chyflogaeth, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni deilliannau cynaliadwy ac ystyrlon sy'n cyd-fynd â'u nodau.

Mae tystiolaeth o waith QAA ar y Diploma Mynediad i Addysg Uwch yn dangos sut y gall llwybrau amgen gefnogi dilyniant yn effeithiol lle maent wedi'u cynllunio'n dda. Er bod y cynllun Mynediad yn llwybr sy'n canolbwyntio ar oedolion yn bennaf, yng Nghymru mae cyfran sylweddol o'r dysgwyr hyn yn 19 oed ac iau, sy'n awgrymu bod rhai dysgwyr iau eisoes yn defnyddio llwybrau anhraddodiadol ochr-yn-ochr â llwybrau

Lefel 3 mwy sefydledig. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod pob llwybr, gan gynnwys y rhai ar lefelau is, wedi'u strwythuro a'u cefnogi'n glir i alluogi dilyniant.

Er bod prif gylch gwaith QAA yn ymwneud ag addysg uwch a mynediad i'r system honno, mae'r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at y ffaith y gall llwybrau anhraddodiadol ffurfio rhan bwysig o system gydlynol lle mae dilyniant, cefnogaeth i ddysgwyr a deilliannau yn ffocws canolog.

2. Beth arall ydym ni'n ei wybod am achosion uniongyrchol y cynnydd diweddar yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer colegau? Ydyn ni'n disgwyl i'r cynnydd barhau?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

3. Pa resymau allai fod dros y lefelau uwch o fyfyrwyr rhan-amser a hŷn sy'n mynd i mewn i addysg uwch yng Nghymru? A ddylai Llywodraeth Cymru geisio cynyddu mynediad i addysg uwch llawn-amser yn 18 oed o ystyried y cyfraddau uwch o gyfranogiad rhan-amser a hŷn?

Mae'n bwysig canolbwyntio ar gryfhau'r ystod lawn o lwybrau i addysg uwch. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod llwybrau dilyniant yn glir ac yn hygyrch, bod opsiynau astudio hyblyg a rhan-amser yn cael eu cefnogi, a bod arferion derbyn yn cynnal hyder mewn safonau academaidd ar draws gwahanol lwybrau mynediad. Bydd hyn hefyd yn dibynnu ar rannu data amserol a chydlynol i gefnogi mewnwelediad ar lefel y system i batrymau cyfranogiad, gan alluogi goruchwyliaeth, sicrwydd a gwelliant effeithiol ar draws y system drydyddol.

Mae Cymru'n dangos patrwm cyfranogiad gwahanol i rannau eraill o'r DU, gyda chyfraddau mynediad is i addysg uwch yn 18 oed ond cyfranogiad cymharol gryfach trwy lwybrau mynediad amgen a hwyrach. Yn aml, mae cyfranogiad yn cael ei ddosbarthu ar draws cylch bywyd y dysgwr yn hytrach na chanolbwyntio ar 18 oed, gyda dysgwyr yn mynd i addysg uwch trwy symud ymlaen o addysg bellach, llwybrau mynediad i oedolion a llwybrau amgen.

Mae hyn yn awgrymu bod Cymru eisoes yn gweithredu llawer o'r nodweddion sy'n gysylltiedig â system dysgu gydol-oes lle mae cyfranogiad wedi'i ddosbarthu ar draws cylch bywyd y dysgwr, yn hytrach na'i fod yn canolbwyntio ar un pwynt mynediad. Felly gellir gweld lefelau uwch o fynediad rhan-amser ac ymysg dysgwyr hŷn fel cryfder yn system Cymru, gan adlewyrchu ei gallu i gefnogi dysgwyr ar wahanol gyfnodau o fywyd a thrwy wahanol lwybrau.

Fodd bynnag, mae'r patrwm hwn hefyd yn adlewyrchu heriau strwythurol ehangach. Mae Cymru’n parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu â rhannau eraill o'r DU o ran mynediad i addysg uwch yn 18 oed, sy'n gysylltiedig â ffactorau fel cyrhaeddiad Lefel 3 ac anghydraddoldebau parhaus sy'n ymwneud ag amddifadedd, rhywedd ac anabledd. Mae goblygiadau i hyn o ran cyfleoedd unigol a chyflenwad sgiliau lefel uwch i'r economi.

O safbwynt ansawdd, y nod yw peidio â blaenoriaethu un dull mynediad dros un arall, ond yn hytrach sicrhau bod pob llwybr i addysg uwch yn gydlynol, yn hygyrch ac yn cefnogi dilyniant llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod llwybrau dilyniant ar draws y system yn parhau i fod yn glir ac yn cael eu deall yn dda, bod dysgwyr wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer astudiaethau addysg uwch, a bod arferion derbyn yn cynnal hyder mewn safonau academaidd ar draws gwahanol lwybrau.

Bydd cyflawni hyn yn ymarferol yn gofyn am gysondeb rhwng mecanweithiau cyllido, disgwyliadau rheoleiddio a chynllunio systemau, ochr-yn-ochr â data a mewnwelediad gwell ar lefel y system i gefnogi dealltwriaeth o batrymau cyfranogiad, dilyniant a deilliannau ar draws cylch bywyd y dysgwr.

4. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU eu huchelgais i ddwy ran o dair o bobl ifanc gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant lefel 4+ erbyn 25 oed, cynnydd o'r gyfradd gyfranogi bresennol o 50%. Cyflwynwyd is-darged hefyd, sef bod o leiaf 10% o bobl ifanc yn dilyn addysg dechnegol neu brentisiaethau uwch erbyn 25 oed ac erbyn 2040. A ddylai Cymru osod targed tebyg i Lywodraeth y DU ar gyfer cyfranogiad lefel 4+ a/neu brentisiaethau?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

5. Pa oblygiadau sy’n perthyn i’r tueddiadau a amlinellir mewn cyfranogiad ôl-16 ac mewn mannau eraill yn y papur hwn ar gyfer addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?

Bydd sicrhau bod llwybrau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gydlynol ar draws y system drydyddol, gan alluogi dysgwyr i symud ymlaen trwy wahanol gamau addysg, tra’n cynnal mynediad at ddarpariaeth yn y Gymraeg, yn ystyriaeth allweddol. Bydd hyn hefyd yn gofyn am well dealltwriaeth o’r galw, y cyfranogiad a’r dilyniant ar lefel y system, yn seiliedig ar rannu data amserol i alluogi cynllunio cydlynol, goruchwyliaeth effeithiol a gwelliant parhaus.

Mae'r tueddiadau a amlinellir yn y papur yn awgrymu y bydd angen cynllunio systemau gofalus ar gyfer addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog os yw cyfranogiad am dyfu mewn ffordd gydlynol a chynaliadwy. Yn benodol, lle mae cyfranogiad yn digwydd fwyfwy trwy ystod ehangach o lwybrau ôl-16 ac yn ddiweddarach yn ystod bywyd, mae angen sicrhau bod dysgwyr yn gallu parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n ddwyieithog, wrth iddynt symud ymlaen trwy'r system drydyddol.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn gryfach mewn rhai rhannau o'r system nag eraill, ac mae argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws addysg bellach ac uwch yn amrywio yn ôl maes pwnc, sefydliad a rhanbarth. Gall hyn greu heriau i ddysgwyr sy'n dymuno parhau i astudio yn y Gymraeg wrth iddynt symud rhwng gwahanol gyfnodau addysg. Yn y cyd-destun hwn, bydd angen i dwf mewn cyfranogiad gyd-fynd â sylw i gydlyniant llwybrau dysgu cyfrwng Cymraeg, nid dim ond maint y ddarpariaeth.

Mae ymgysylltiad diweddar QAA â phartneriaid yn y sector ar ddatblygu'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol, gan gynnwys cymryd rhan yn y gweithgor sy'n ystyried amod rheoleiddio’r Gymraeg Medr, wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio cydlynol i gynyddu'r galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a chyfranogiad ynddi, gan sicrhau darpariaeth ddigonol i ddiwallu'r galw hwnnw. Mae'r amod drafft hefyd yn ei gwneud yn glir y bydd angen strategaethau ar ddarparwyr i gynyddu'r galw a chyfranogiad, cydweithio, cynllunio'r gweithlu, a chynnal ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad y dysgwr.

O safbwynt ansawdd, rhaid i ehangu hefyd gael ei ategu gan safonau academaidd clir a chyson. Mae Datganiad Meincnod Pwnc QAA ar gyfer y Gymraeg yn rhoi un enghraifft o sut mae safonau'n cael eu mynegi o fewn disgyblaeth, gan ddiffinio'r wybodaeth a'r sgiliau a ddisgwylir gan raddedigion, tra’n caniatáu hyblygrwydd wrth eu cyflwyno.

O safbwynt polisi, dylid ystyried addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel mater system-gyfan yn ogystal â mater cyfranogiad sy'n gofyn am gynllunio cydlynol, digon o gapasiti ymysg darparwyr, ffocws parhaus ar gynnal safonau a sylw i sut mae dysgwyr yn symud trwy'r system, tra’n cynnal mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog o ansawdd uchel.

## Demograffeg a dysgu gydol oes

1. Sut mae darparwyr addysg drydyddol yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer newid demograffig sydd ar ddod yn eu hardaloedd? Pa heriau fydd hyn yn eu creu?

Dylai datblygu polisïau gynorthwyo darparwyr i gynllunio'n strategol ar gyfer newid demograffig trwy wella rhannu data a mewnwelediad ar lefel y system, aliniad rhwng cyllido a galw, a mwy o gydlynu darpariaeth ar draws rhanbarthau, gan gynnal hyder mewn safonau academaidd ac ansawdd profiad y dysgwr.

Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru rhwng 16 a 18 oed yn gostwng dros y blynyddoedd nesaf, gydag amrywiad ar draws rhanbarthau. Disgwylir i hyn leihau nifer y dysgwyr traddodiadol sy'n gadael yr ysgol ac sy'n dechrau addysg drydyddol gan gynyddu'r ddibyniaeth ar ddysgwyr sy'n oedolion, astudiaethau rhan-amser a llwybrau uwchsgilio ac ailsgilio.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ymatebion gan ddarparwyr yn amrywiol. Mae rhai darparwyr yn mynd ati i fodelu galw ar gyfer y dyfodol ac yn ystyried sut y gallai fod angen i'r ddarpariaeth addasu, tra bod risg y gallai eraill danamcangyfrif graddfa a chyflymder newid demograffig a'i oblygiadau ar gyfer darpariaeth leol.

Yn fwy cyffredinol, mae symudiad tuag at fwy o ddibyniaeth ar ddysgwyr sy'n oedolion a rhan-amser yn golygu cymhlethdod ychwanegol o ran y ddarpariaeth. Bydd angen i ddarparwyr gynnig cefnogaeth i ddysgwyr sy'n dechrau mewn gwahanol gyfnodau o fywyd, gan gyfuno astudio â chyflogaeth neu gyfrifoldebau gofalu yn aml, tra’n cynnal llwybrau cydlynol a phrofiad dysgu cyson. Mae goblygiadau’n perthyn i hyn o ran dylunio’r cwricwlwm, cymorth i ddysgwyr a chynaladwyedd y ddarpariaeth.

O safbwynt ansawdd, mae'r newidiadau hyn yn cynyddu pwysigrwydd llwybrau dilyniant clir, cefnogaeth effeithiol i ddysgwyr a dulliau cadarn o gynnal safonau academaidd ar draws system fwy amrywiol a hyblyg.

Mae tystiolaeth o waith rheoleiddio Mynediad i AU QAA yn awgrymu bod darparwyr yn dechrau ymateb i'r tueddiadau hyn trwy gynllunio a chyflwyno mwy strategol. Yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys ffocws ar gydraddoldeb rhanbarthol o ran darpariaeth, amrywio pynciau, datblygu modelau cyflwyno hyblyg ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion ehangu dwyieithrwydd, aliniad ag anghenion sgiliau, a mwy o gynllunio yn seiliedig ar ddata i ymateb i’r newid mewn niferoedd dysgwyr.

Ar yr un pryd, mae hyn yn creu nifer o heriau. Mae darpariaeth a chyfranogiad yn parhau i fod wedi'u dosbarthu'n anwastad yn ddaearyddol, a bydd twf yn y dyfodol yn dibynnu ar gynaladwyedd modelau cyflwyno ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion, gan gynnwys darpariaeth hyblyg, capasiti dwyieithog ac aliniad â'r galw rhanbarthol am sgiliau.

Ar y cyfan, mae newid demograffig yn debygol o roi mwy o bwysau ar ddarparwyr i gynllunio'n fwy strategol ar draws rhanbarthau, pynciau a dulliau cyflwyno, yn enwedig lle mae cyfranogiad yn dibynnu fwyfwy ar ddysgwyr sy'n oedolion, rhan-amser ac anhraddodiadol yn hytrach na charfan gynyddol o bobl sy'n gadael yr ysgol.

2. Beth yw'r rhwystrau cyllidol, deddfwriaethol a gweinyddol i gynyddu'r cyflenwad a'r galw am gyfleoedd dysgu gydol-oes hyblyg a hygyrch, ar lefelau is (islaw lefel 3) a lefelau uwch (uwchlaw lefel 4)?

Bydd yn bwysig canolbwyntio ar fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol ar draws cyllido, rheoleiddio a dylunio systemau sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu ar ehangu dysgu gydol-oes hyblyg a hygyrch, gan sicrhau bod safonau academaidd ac ansawdd profiad y dysgwr yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys cryfhau rhannu data a mewnwelediad ar lefel y system i gynorthwyo â chydlynu, goruchwyliaeth a gwelliant parhaus ar draws y system drydyddol. Bydd hyn hefyd yn gofyn am alinio mecanweithiau cyllido â darpariaeth fodiwlaidd a rhan-amser, gwella eglurder ynghylch cydnabyddiaeth credydau a dilyniant, a chefnogi mwy o gydlynu systemau ar draws addysg bellach, addysg uwch, a dysgu yn y gweithle.

Mae cyfleoedd dysgu gydol-oes hyblyg a hygyrch yn cael eu llunio gan gyfuniad o ffactorau cyllido, deddfwriaethol a gweinyddol, sydd gyda'i gilydd yn dylanwadu ar y cyflenwad a’r ddarpariaeth o ran galw gan ddysgwyr ar draws y system.

Mae rhwystrau cyllidol yn parhau i fod yn gyfyngiad canolog. Gall trefniadau cyllido presennol gynnig cymhellion i gyflwyno rhaglenni llawn yn hytrach na darpariaeth fodiwlaidd neu hyblyg, gan gyfyngu ar allu darparwyr i ddatblygu a chynnal cyfleoedd dysgu rhan-amser, fesul tamaid neu anlinellol. Mae tystiolaeth hefyd o gymhlethdod ac anghysondeb yn y ffordd y mae cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ar gyfer oedolion yn cael ei ddeall a'i gyrchu, a all effeithio ar ymddygiad darparwyr a nifer y dysgwyr sy’n defnyddio’r ddarpariaeth honno. Yng Nghymru, mae llwybrau fel y Diploma Mynediad i Addysg Uwch yn tynnu sylw at bwysigrwydd darpariaeth sy'n canolbwyntio ar oedolion a'r pwysau y mae'n ei wynebu, gan gynnwys gostyngiad mewn cyfranogiad, ochr-yn-ochr â deilliannau dilyniant cryf.

Gall ffactorau deddfwriaethol a rheoleiddiol hefyd greu ansicrwydd lle nad yw disgwyliadau ar gyfer darpariaeth hyblyg, cydnabyddiaeth o gredydau a dilyniant wedi'u diffinio'n gyson ar draws y system. Wrth i ddarpariaeth ddod yn fwy modiwlaidd a chael ei chyflwyno ar draws sawl darparydd neu leoliad, mae eglurder ynghylch cyfrifoldebau dros ansawdd, safonau a dyfarniadau’n dod yn gynyddol bwysig.

Mae rhwystrau gweinyddol yn cynnwys cymhlethdod teithiau dysgwyr ar draws addysg bellach, addysg uwch a dysgu yn y gweithle. Gall gwybodaeth, cyngor ac arweiniad tameidiog, ynghyd â diffyg eglurder ynghylch llwybrau dilyniant, ei gwneud hi'n anoddach i ddysgwyr lywio'r system, yn enwedig y rhai sy'n dychwelyd i addysg yn ddiweddarach mewn bywyd. Gall cyfyngiadau data hefyd ei gwneud hi'n anoddach deall galw dysgwyr, patrymau dilyniant a lle gallai ymyriadau fod fwyaf effeithiol.

Yn fwy cyffredinol, mae ehangu dysgu hyblyg yn gallu golygu cymhlethdod ychwanegol o ran sut mae darpariaeth yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno. Mae gofyniad cynyddol i ddarparwyr gefnogi grwpiau amrywiol o ddysgwyr sy'n astudio ar draws gwahanol ddulliau, dwysterau a phwyntiau mynediad, yn aml ochr-yn-ochr â chyfrifoldebau cyflogaeth neu ofalu. Mae sicrhau profiad dysgu cydlynol ac o ansawdd uchel ar draws yr amrywioldeb hwn, yn enwedig yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol, yn her sylweddol.

Mae ymgysylltiad QAA â'u haelodau ledled y DU yn dangos, er bod diddordeb cryf mewn ehangu darpariaeth hyblyg a modiwlaidd, fod cynnydd yn aml yn cael ei gyfyngu gan y rhwystrau strwythurol hyn ar lefel y system. Trwy eu rôl gyfunol, gan gynnwys gwaith gydag aelodau ar fentrau fel micro-gymwysterau a chydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol, mae QAA wedi tynnu sylw at bwysigrwydd dulliau a rennir o ran credydau, sicrhau ansawdd a gwybodaeth i ddysgwyr wrth gefnogi llwybrau mwy hyblyg.

Mae profiad ledled y DU yn awgrymu nad rhwystrau technegol yn unig mo’r rhain, ond eu bod yn cael eu llunio gan ddyluniad ehangach y system. Mae datblygiadau fel cyflwyno’r Hawl Dysgu Gydol-oes yn Lloegr yn dangos sut y gall diwygio cyllid weithredu fel galluogwr allweddol ar gyfer dysgu modiwlaidd, tra hefyd yn tynnu sylw at risgiau posibl lle mae dulliau’n amrywio ledled y DU.

Felly, bydd mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn gofyn am gamau cydlynol ar draws cyllido, rheoleiddio a chynllunio systemau, ochr-yn-ochr â chydweithio parhaus rhwng y sectorau i gynorthwyo â darpariaeth hyblyg wrth gynnal hyder mewn safonau academaidd a deilliannau dysgwyr.

3. Pa newidiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau cyfleoedd priodol i oedolion wella eu sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol ochr-yn-ochr â sgiliau galwedigaethol a dysgu arall?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

4. Pa wersi y gellir eu dysgu o’r rhaglen Cyfrif Dysgu Personol, a sut y gellir gwerthuso ac ehangu llwyddiannau'r polisi hwnnw?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

5. Pa fathau o addysg bellach a hyfforddiant i oedolion 19 oed a throsodd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt i'w cynnwys mewn rheoliadau i'w gwneud o dan adran 94 o’r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil?

Ystyriaeth allweddol fydd sicrhau bod y ddarpariaeth a flaenoriaethir o dan adran 94 yn cefnogi dilyniant i lefelau astudio uwch, yn hyblyg o ran modd a chyflymder, yn ymateb i anghenion sgiliau rhanbarthol a sectoraidd, ac yn galluogi dysgwyr i gydbwyso astudio â gwaith, gofalu neu gyfrifoldebau eraill, yn ogystal â chynnal hyder mewn safonau academaidd.

Yn y cyd-destun hwn, mae achos dros sicrhau nad yw llwybrau Lefel 3 sy'n canolbwyntio ar oedolion yn cael eu hanwybyddu o fewn fframwaith polisi sydd fel arall yn canolbwyntio ar ddysgu gydol-oes a dilyniant.

Mae tystiolaeth o Gymru’n awgrymu bod y Diploma Mynediad i Addysg Uwch yn enghraifft sefydledig o ddarpariaeth o'r fath. Mae'n chwarae rhan arwyddocaol fel llwybr dilyniant i addysg uwch, gyda chyfran uwch o fyfyrwyr yn symud ymlaen trwy’r cynllun Mynediad i AU na chyfartaledd y DU, a chyda chyfraddau dilyniant cryf iawn o'i gymharu â llwybrau Lefel 3 eraill. Mae hefyd wedi'i alinio'n gryf â chyfranogiad oedolion ac ehangu mynediad.

Mae hyn yn dangos y gall darpariaeth Lefel 3 sy'n canolbwyntio ar oedolion ffurfio rhan bwysig o system drydyddol gydlynol, yn enwedig yng nghyd-destun newid demograffig a dibyniaeth gynyddol ar fynediad hwyrach a llwybrau hyblyg.

Felly, mae’n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried sut mae llwybrau o'r fath yn cael eu cefnogi o fewn y rheoliadau a wneir o dan adran 94, ochr-yn-ochr â darpariaeth ehangach sy'n bodloni'r meini prawf hyn.

1. Beth yw'r rhwystrau presennol i fwy o gydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol? Beth yw'r ffactorau sy'n galluogi cydweithredu effeithiol ar hyn o bryd?

Mae cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru’n cael ei lunio gan gymysgedd o ffactorau strwythurol, ariannol a gweithredol, sy’n gallu rhwystro neu alluogi, yn dibynnu ar sut y cânt eu cyflunio.

Un rhwystr sylweddol yw'r amgylchedd ariannol ehangach. Mewn cyd-destun cyllido cyfyngedig, gall sefydliadau flaenoriaethu recriwtio a chynhyrchu incwm, a all leihau cymhellion i gydweithio lle gallai hyn effeithio ar y nifer sy’n ymrestru neu gynaladwyedd sefydliadol. Gall hyn greu tensiwn rhwng cydweithio ar lefel system a hyfywedd ar lefel darparydd.

Rhwystr pellach yw'r cymhlethdod a grëir gan wahaniaethau yn y ffordd y mae darpariaeth yn cael ei strwythuro, ei chyllido a'i rheoleiddio ar draws y system drydyddol. Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn cynnwys tair colofn, Addysg Uwch, Cymwysterau a Reoleiddir, a Dysgu Gydol Oes, pob un â disgwyliadau a normau penodol. Mae Fframwaith Micro-gymwysterau QAA ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon yn tynnu sylw at y ffaith y gall micro-gymwysterau berthyn i unrhyw un o'r colofnau hyn, ond eu bod yn aml yn cael eu deall yn wahanol, gan ddibynnu ar gonfensiynau'r sector. Er enghraifft, nid yw’r un ystyr yn perthyn i dermau fel “dyfarniad” a “chredyd” mewn addysg bellach a dysgu oedolion a chymunedol ag sydd iddynt mewn addysg uwch, a all greu camddealltwriaeth a gwneud cydweithio, cludadwyedd a chyflwyno ar y cyd yn anoddach yn ymarferol.

Mae cymhlethdod gweithredol yn rhwystr arall. Mae darpariaeth gydweithredol, yn enwedig lle mae'n cynnwys cyflwyno ar y cyd neu nifer o bartneriaid, yn gofyn am drefniadau llywodraethiant clir, cyfrifoldebau wedi'u diffinio ar gyfer safonau academaidd, a dulliau cydlynol o gefnogi myfyrwyr. Lle mae'r trefniadau hyn yn aneglur, gall cydweithio beri risgiau i ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad y myfyrwyr. Mae llawlyfr adolygu QAA ar gyfer Cymru hefyd yn ei gwneud yn glir bod darpariaeth gydweithredol yn dod o fewn cwmpas adolygiad allanol a bod cyrff dyfarnu yn cadw cyfrifoldeb am safonau academaidd dyfarniadau a gyflwynir trwy drefniadau o'r fath.

Mae cydweithio effeithiol yn fwy tebygol lle mae nifer o amodau galluogi yn bresennol. Mae trefniadau llywodraethiant clir a chadarn yn hanfodol, gan sicrhau bod cyfrifoldebau dros safonau academaidd, sicrhau ansawdd a chymorth i ddysgwyr wedi'u diffinio'n dda ar draws yr holl bartneriaid. Gall alinio cymhellion, gan gynnwys blaenoriaethau cyllidol a strategol, hefyd gynorthwyo cydweithio trwy sicrhau bod sefydliadau’n gallu cymryd rhan heb danseilio eu cenhadaeth graidd na’u cynaladwyedd ariannol. Mae dealltwriaeth gyffredin o bwrpas yr un mor bwysig, yn enwedig lle bwriedir i gydweithio fynd i'r afael ag anghenion rhanbarthol, cefnogi grwpiau penodol o ddysgwyr, neu gynnal darpariaeth mewn meysydd pwnc allweddol.

Mae yna alluogwyr ymarferol hefyd. Gallai mwy o gysondeb o ran terminoleg, fframweithiau credyd a disgwyliadau ar draws gwahanol rannau o'r system drydyddol gefnogi cydweithio mwy effeithiol, yn enwedig wrth i ffurfiau hyblyg a modiwlaidd o ddarpariaeth barhau i ddatblygu. Cynlluniwyd Fframwaith Micro-gymwysterau QAA ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhannol i gynorthwyo â dulliau mwy cyson o ran terminoleg, ansawdd a safonau, gwybodaeth i ddysgwyr, partneriaethau a chludadwyedd ar draws y system drydyddol.

Mae gwaith QAA wrth adolygu darpariaeth trwy bartneriaeth a threfniadau cyflwyno cydweithredol hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir a goruchwyliaeth gadarn lle cyflwynir darpariaeth ar draws nifer o bartneriaid. Mae'r dull adolygu yng Nghymru’n disgwyl i ddarparwyr ddangos tystiolaeth o sut maent yn rheoli ansawdd a safonau ar draws darpariaeth gydweithredol, gan gynnwys trwy gofrestrau o ddarpariaeth gydweithredol ac adrodd penodol ar drefniadau cydweithredol lle bo'n berthnasol.

At ei gilydd, mae gan gydweithio'r potensial i gefnogi gwydnwch systemau ac ymestyn cyfleoedd, ond nid yw'n ddatrysiad ym mhob sefyllfa. Mae ei lwyddiant yn dibynnu ar a yw'r amodau yn eu lle iddo weithredu'n effeithiol. Felly, efallai y bydd datblygiad polisi am ganolbwyntio ar leihau rhwystrau strwythurol, gwella eglurder traws-sector, a chefnogi trefniadau ar gyfer llywodraethiant sy'n galluogi cydweithio er mwyn darparu gwerth clir i ddysgwyr wrth gynnal hyder mewn safonau academaidd ac ansawdd profiad y myfyrwyr.

2. A oes rhagor o enghreifftiau o ysgolion a cholegau yn cydweithio i gynnal cwricwlwm eang a hygyrch mewn addysg ôl-16 ac i wella'r cyfnod pontio rhwng cyn-16 ac ôl-16? A oes rhagor o enghreifftiau o brifysgolion yn cydweithio i ddarparu graddau? A ellir datblygu hyn ymhellach i ddiogelu meysydd pwnc sydd mewn perygl?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

3. Beth yw manteision ac anfanteision y farchnad heb ei chyfyngu ar gyfer israddedigion cartref, i fyfyrwyr ac i sefydliadau? Sut mae'r sector addysg uwch yn disgwyl i'r farchnad ddatblygu dros y degawd nesaf, yn enwedig pan fydd nifer y bobl 18 oed yn dechrau gostwng?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

4. Ble mae risgiau o 'ardaloedd oer o ran addysg uwch' yng Nghymru? A oes meysydd pwnc penodol dan fygythiad oherwydd cystadleuaeth yn y farchnad a newid o ran dewisiadau myfyrwyr?

Dylai datblygiad polisi ystyried sut y gall dulliau cynllunio a chyllido ar lefel y system gefnogi cynnal darpariaeth hygyrch ar draws rhanbarthau a meysydd pwnc, yn enwedig lle gallai dynameg y farchnad a newid demograffig arwain at fylchau yn y ddarpariaeth fel arall.

Mae'r risg o "ardaloedd oer o ran addysg uwch" yng Nghymru yn ymwneud llai â diffyg darpariaeth a mwy â sut mae mynediad at addysg uwch wedi'i ddosbarthu ar draws gwahanol grwpiau dysgwyr, rhanbarthau a meysydd pwnc. Mae Cymru'n elwa o rwydwaith cymharol wasgaredig o brifysgolion, colegau addysg bellach a darpariaeth sy'n seiliedig ar bartneriaethau, sy'n helpu i liniaru effaith ardaloedd oer wedi'u diffinio'n glir yn ddaearyddol.

Fodd bynnag, gall risgiau godi lle mae mynediad at addysg uwch yn fwy dibynnol ar ddarpariaeth leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu ranbarthau sydd â phoblogaeth isel. Yn y cyd-destunau hyn, gall cynaladwyedd y ddarpariaeth, gan gynnwys trwy gampysau lleol, darpariaeth trwy ryddfraint neu drefniadau partneriaeth, fod yn fwy sensitif i bwysau ariannol a newid demograffig. Lle mae darpariaeth yn cael ei lleihau neu ei chydgrynhoi, mae risg y gallai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n llai symudol neu sy'n astudio'n hwyrach mewn bywyd, wynebu rhwystrau cynyddol i gyfranogiad.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun Cymru, lle mae cyfranogiad wedi'i ddosbarthu'n fwy ar draws cylch bywyd y dysgwr yn hytrach nag wedi'i ganolbwyntio ar 18 oed. Mae mynediad i addysg uwch trwy addysg bellach, dysgu oedolion a llwybrau fel y Diploma Mynediad i Addysg Uwch yn chwarae rhan arwyddocaol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod darpariaeth a chyfranogiad yn y cynllun Mynediad wedi'u dosbarthu'n anwastad yn ddaearyddol, gyda thua 45 y cant wedi'u crynhoi yn Ne-ddwyrain Cymru, o'i gymharu â 26 y cant yn Ne-orllewin a Gogledd Cymru, a thua 2 y cant yng Nghanolbarth Cymru.

Mae hyn yn dangos y gallai risgiau o “ardaloedd oer” ddod i’r amlwg nid yn unig o ran darpariaeth addysg uwch ei hun, ond hefyd o ran nifer y dysgwyr sy’n symud ymlaen i addysg uwch. Heb fynediad lleol digonol i lwybrau Lefel 3 ac ar gyfer oedolion, gall dysgwyr wynebu rhwystrau i fynediad, waeth beth fo'r ddarpariaeth addysg uwch sydd ar gael.

Mae yna risgiau posibl ar lefel pwnc hefyd. Mewn amgylchedd mwy cystadleuol ac sydd â chyfyngiadau ariannol, gall darpariaeth mewn pynciau â galw is neu lai sefydlog, neu gostau cyflwyno uwch, fod yn fwy agored i leihau neu gydgrynhoi. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol ar gyfer pynciau arbenigol neu'r rhai sydd angen seilwaith sylweddol, lle gall y ddarpariaeth gael ei chydgrynhoi mewn nifer llai o ddarparwyr. Dros amser, gallai hyn leihau dewis a hygyrchedd i ddysgwyr mewn rhai ardaloedd.

## Cynaladwyedd ariannol

1. Beth yw'r enghreifftiau gorau o ddarparwyr trydyddol yn sicrhau effeithlonrwydd wrth ddarparu cyrsiau, tra'n cynnal ansawdd? A beth yw'r heriau wrth wneud hyn?

Mae yna achos dros sicrhau bod newidiadau yn y ddarpariaeth ar sail effeithlonrwydd, gan gynnwys trawsnewid cwricwlwm, cydweithio a chyfuno portffolio, yn cael eu hategu gan gynllunio cydlynol ar lefel system a sicrwydd ansawdd cadarn, fel nad yw safonau academaidd ac ansawdd profiad y myfyrwyr yn cael eu peryglu.

Ar draws y sector trydyddol, mae darparwyr yn mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau i wella effeithlonrwydd wrth gyflwyno darpariaeth, tra'n cynnal ansawdd y dysgu a'r addysgu. Yn aml, mae'r dulliau hyn yn cael eu siapio gan bwysau ariannol, newid demograffig a'r angen am ymateb i anghenion dysgwyr mwy amrywiol.

Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys trawsnewid y cwricwlwm a rheoli portffolio'n fwy gweithredol, gyda sefydliadau'n adolygu cydbwysedd y ddarpariaeth ar draws meysydd pwnc, dulliau cyflwyno a lefelau astudio.

Mae darparwyr hefyd yn archwilio ffurfiau mwy hyblyg a modiwlaidd o ddarpariaeth, gan gynnwys micro-gymwysterau a chyrsiau byrrach. Gall y dulliau hyn alluogi cyflwyno darpariaeth i wahanol grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n cyfuno astudio â chyflogaeth, gan gefnogi dilyniant trwy bentyrru a chronni credydau.

Gellir cynyddu effeithlonrwydd hefyd trwy fodelau cyflawni cydweithredol, gan gynnwys trefniadau partneriaeth rhwng colegau addysg bellach, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant. Gall y rhain alluogi darparwyr i rannu arbenigedd, osgoi dyblygu darpariaeth yn ddiangen ac ymestyn mynediad i ddysgwyr mewn gwahanol leoliadau. Lle mae trefniadau o'r fath wedi'u cynllunio'n dda, gyda llywodraethiant clir a chyfrifoldebau wedi'u diffinio ar gyfer safonau academaidd a sicrwydd ansawdd, gallant gefnogi effeithlonrwydd a darpariaeth o ansawdd uchel.

Yn ogystal, mae darparwyr yn tynnu ar gyfeirbwyntiau a rennir gan y sector, megis Côd Ansawdd y DU, y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch, Datganiadau Nodweddion, a Datganiadau Meincnod Pwnc, a gaiff eu datblygu a’u cynnal gan QAA mewn cydweithrediad â'r sector, i gefnogi cysondeb mewn safonau academaidd, gan ganiatáu hyblygrwydd yn y ffordd y caiff darpariaeth ei chynllunio a'i chyflwyno. Mae'r cyfeirbwyntiau cyffredin hyn yn galluogi darparwyr i addasu darpariaeth mewn ymateb i anghenion dysgwyr sy'n newid heb fod angen datblygu fframweithiau ansawdd cwbl newydd.

Gall gwahaniaethau ar draws y system drydyddol greu heriau hefyd. Gall amrywiadau mewn terminoleg, systemau credyd a disgwyliadau rheoleiddio rhwng addysg bellach, addysg uwch a rhannau eraill o'r system ei gwneud hi'n anoddach cynllunio a chyflwyno darpariaeth yn effeithlon ar draws ffiniau sefydliadol. Trwy ein gwaith gyda'r sector, mae QAA wedi nodi sut y gall y gwahaniaethau hyn fod yn rhwystrau i gydweithio ac i ddatblygu llwybrau dysgu hyblyg, ac mae wedi mynd i'r afael â hyn trwy ddatblygu'r Fframwaith Micro-gymwysterau ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon, sy'n cynorthwyo â mwy o gysondeb yn y ffordd y mae darpariaeth yn cael ei chynllunio, ei chydnabod a'i sicrhau o ran ansawdd.

Fodd bynnag, mae yna heriau sylweddol o ran cydbwyso effeithlonrwydd ag ansawdd. Mae darparu profiadau dysgu o ansawdd uchel yn gofyn am fuddsoddiad parhaus mewn staff, yr amgylchedd dysgu, seilwaith a chymorth i fyfyrwyr, ac mae perthynas glir rhwng adnoddau ac ansawdd. Mewn amgylchedd sy’n gyfyngedig o ran arian, mae risg y gallai ymdrechion i wella effeithlonrwydd roi pwysau ar y meysydd hyn, gyda goblygiadau posibl i brofiad y myfyrwyr a chynnal safonau academaidd. Bydd QAA yn cyhoeddi cyngor a chanllawiau Côd Ansawdd y DU ar Egwyddor 3: Sicrhau adnoddau ar gyfer darparu profiad dysgu o ansawdd uchel, yn haf 2026.

Mae yna heriau hefyd sy'n gysylltiedig â chymhlethdod. Wrth i ddarpariaeth ddod yn fwy hyblyg, modiwlaidd a chydweithredol, rhaid i ddarparwyr reoli trefniadau mwy cymhleth ar gyfer cyflwyno, asesu a chefnogi myfyrwyr, yn aml ar draws nifer o bartneriaid neu ddulliau astudio. Gall sicrhau bod profiadau dysgu yn parhau i fod yn gydlynol, a bod cyfrifoldebau dros ansawdd a safonau wedi'u diffinio'n glir, fod yn anodd yn y cyd-destunau hyn.

Yn olaf, mae her ehangach o ran sicrhau nad yw sefydliadau’n ceisio effeithlonrwydd ar draul ansawdd addysgol. Rhaid i ddulliau sy'n gwella effeithlonrwydd wrth gyflwyno barhau i gefnogi addysgu effeithiol, asesu ystyrlon a deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr. Mae cynnal ffocws clir ar safonau academaidd, profiad y myfyriwr a llwybrau dysgu cydlynol yn parhau i fod yn hanfodol wrth i ddarparwyr addasu eu modelau cyflwyno.

At ei gilydd, er bod enghreifftiau clir o ddulliau a all gynorthwyo ag effeithlonrwydd, mae eu llwyddiant yn dibynnu ar adnoddau priodol, llywodraethiant clir a ffocws parhaus ar gynnal profiadau dysgu o ansawdd uchel ar draws system drydyddol sy'n gynyddol amrywiol a chymhleth.

2. Ble mae cyfleoedd i arbed costau wrth ddarparu addysg drydyddol?

Mae cyfleoedd i wella effeithlonrwydd wrth ddarparu addysg drydyddol yn cael eu gweithredu’n bennaf trwy newidiadau yn y ffordd y mae darpariaeth yn cael ei threfnu a'i chyflwyno ar draws y system. Yn aml, mae'r dulliau hyn yn cael eu hysgogi gan bwysau ariannol, newid demograffig a'r angen am ymateb i anghenion dysgwyr mwy amrywiol.

Mae camau i ddatblygu ffurfiau mwy hyblyg a modiwlaidd o ddarpariaeth, gan gynnwys micro-gymwysterau a chyrsiau byrrach, yn enghraifft o hyn. Er y gall y dulliau hyn gefnogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau, maent hefyd yn cyflwyno ystyriaethau newydd ar gyfer sut mae safonau academaidd yn cael eu cynnal, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio asesiadau, cydnabyddiaeth o gredydau a chydlyniant llwybrau dysgu.

Mae effeithlonrwydd hefyd yn cael ei geisio trwy fwy o gydweithio a chyflwyno ar sail partneriaeth, gan gynnwys trefniadau rhwng colegau addysg bellach, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant. Gall y modelau hyn leihau dyblygu a chynorthwyo â chynaladwyedd y ddarpariaeth, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae llai o alw. Fodd bynnag, maent hefyd yn gofyn am drefniadau llywodraethiant clir i sicrhau bod cyfrifoldebau dros safonau academaidd ac ansawdd profiad y myfyrwyr wedi'u diffinio'n dda o hyd.

Ar lefel y system, mae effeithlonrwydd posibl yn gysylltiedig â gwella cydlyniant llwybrau dysgwyr ar draws addysg bellach, addysg uwch a dysgu yn y gweithle. Gall mwy o aliniad leihau dyblygu dysgu a chefnogi trosglwyddo credydau, ond mae'n dibynnu ar ddulliau cyson o gydnabyddiaeth, dilyniant a sicrhau ansawdd ar draws gwahanol rannau o'r system.

Ar draws y meysydd hyn, mae tystiolaeth o waith adolygu a gwelliant QAA yn dangos y gall newidiadau mewn modelau cyflwyno, a ysgogir yn aml gan bwysau ariannol a'r angen am ymateb i alw sy'n newid, gynyddu cymhlethdod y ddarpariaeth. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn meysydd fel cyflwyno trwy bartneriaeth ac addysg draws-wladol, lle mae angen trefniadau llywodraethiant, goruchwylio a sicrhau ansawdd ychwanegol.

Mae yna hefyd gyfyngiadau pwysig o ran ble y gellir gwireddu arbedion mewn costau. Mae darparu profiadau dysgu o ansawdd uchel yn gofyn am fuddsoddiad parhaus mewn staff, seilwaith a chymorth i fyfyrwyr, ac mae perthynas glir rhwng adnoddau ac ansawdd. Er y gellir cyflawni effeithlonrwydd trwy well cydlynu a chynllunio systemau, mae yna berygl y gall gostyngiadau mewn adnoddau craidd danseilio ansawdd dysgu ac addysgu, yn ogystal â hyder mewn safonau academaidd. Bydd QAA yn cyhoeddi cyngor a chanllawiau Côd Ansawdd y DU ar Egwyddor 3: Sicrhau adnoddau ar gyfer darparu profiad dysgu o ansawdd uchel, yn haf 2026.

Yn y cyd-destun hwn, mae fframweithiau a chyfeirbwyntiau sector a rennir, a ddatblygwyd a'u cynnal gan QAA, yn cefnogi effeithlonrwydd ar draws y system trwy ddarparu sail gyffredin ar gyfer safonau academaidd. Mae hyn yn lleihau'r angen i ddarparwyr ddatblygu dulliau ar wahân, gan gefnogi cysondeb a gweithrediad system mwy effeithlon. Bydd gwireddu'r effeithlonrwydd hwn hefyd yn dibynnu ar rannu data yn amserol a gwell dealltwriaeth o'r system i gefnogi cynllunio cydlynol, goruchwyliaeth effeithiol a sicrwydd parhaus ar draws y system.

At ei gilydd, mae yna gysylltiad agos rhwng cyfleoedd i arbed costau â newid o fewn y system. Bydd sicrhau bod y newidiadau hyn yn cyd-fynd â threfniadau sicrhau ansawdd cadarn a ffocws parhaus ar safonau academaidd yn hanfodol i gynnal hyder yn y system drydyddol.

3. Pa dystiolaeth bellach sydd ar gael ynghylch y rhwystrau o ran cost i ddysgwyr a myfyrwyr gael mynediad at addysg drydyddol?

Mae’r dystiolaeth sydd ar gael yn tynnu sylw at y ffaith bod cost yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i gael mynediad at addysg drydyddol, yn enwedig i ddysgwyr sy'n dod i mewn trwy lwybrau anhraddodiadol.

Mae tystiolaeth o astudiaeth achos ar gyfer Diploma Mynediad i Addysg Uwch QAA yn dangos bod cyfran sylweddol o ddysgwyr y cynllun Mynediad yn oedolion sy'n dychwelyd i addysg, ac mae llawer ohonynt yn gorfod ymdopi â nifer o wahanol gostau sy'n gorgyffwrdd. Gall y rhain gynnwys costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag astudio, yn ogystal â phwysau ariannol ehangach sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu ac ymrwymiadau cartref.

Mae'r astudiaeth achos hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gan gyfran sylweddol o ddysgwyr y cynllun Mynediad anghenion cymorth ychwanegol, gyda thua 38 y cant yn datgan angen dysgu neu anabledd. Gall hyn gynyddu cost cyfranogiad trwy ofynion ychwanegol fel offer arbenigol, technoleg gynorthwyol neu gefnogaeth wedi'i theilwra, yn ogystal â chostau anuniongyrchol fel teithio neu addasiadau i batrymau astudio.

Yn fwy cyffredinol, gall dysgwyr sy'n dechrau addysg drydyddol trwy addysg bellach, dysgu oedolion neu lwybrau rhan-amser fod yn fwy sensitif i rwystrau cost na'r rhai sy'n gadael yr ysgol a dilyn y llwybr traddodiadol. Mae'r dysgwyr hyn yn fwy tebygol o fod yn cydbwyso astudio â chyflogaeth neu gyfrifoldebau eraill, ac efallai na fyddant mewn sefyllfa cystal i dalu costau ymlaen-llaw neu barhaus sy'n gysylltiedig â chyfranogiad.

Felly nid yw rhwystrau cost yn gyfyngedig i ffioedd dysgu; yn hytrach maent yn cynnwys ystod ehangach o ffactorau megis teithio, gofal plant, mynediad digidol, gan gynnwys mynediad at offer AI, ac argaeledd mecanweithiau cymorth ariannol. Gall y ffactorau hyn ddylanwadu ar fynediad cychwynnol i addysg drydyddol a gallu dysgwyr i gynnal cyfranogiad dros amser.

O safbwynt system, mae'r materion hyn yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod llwybrau i mewn i addysg drydyddol a thrwy’r system honno’n parhau i fod yn hygyrch i ystod amrywiol o ddysgwyr. Lle na chaiff rhwystrau cost eu datrys, mae yna risg y bydd cyfranogiad yn gyfyngedig, yn enwedig i'r rhai sy'n dod i mewn i’r system fel oedolion neu trwy lwybrau amgen sy'n ganolog i uchelgeisiau dysgu gydol-oes Cymru.

4. Ble ddylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cefnogaeth uniongyrchol (gwariant ar grant) ac anuniongyrchol (gwariant ar fenthyciadau) ar gyfer addysg drydyddol? Pa dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y buddion cymdeithasol/economaidd a phreifat/cyhoeddus gorau yn sgil buddsoddiadau o'r fath?

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall buddsoddi mewn llwybrau sy'n cefnogi mynediad at addysg drydyddol i ddysgwyr sy’n wynebu rhwystrau mwyaf i gyfranogiad sicrhau buddion cymdeithasol ac economaidd sylweddol.

Mae'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch yn enghraifft glir o hyn. Mae'r Diploma wedi'i gynllunio'n benodol i gefnogi dysgwyr sy'n oedolion, y mae llawer ohonynt yn wynebu rhwystrau ariannol, strwythurol ac addysgol i gyfranogiad, gan gynnwys y rhai ar incwm isel, â chyfrifoldebau gofalu, ag anableddau, neu heb gymwysterau Lefel 3 blaenorol. Mae tystiolaeth o weithgarwch rheoleiddio a gwelliant QAA yn dangos y gall lleihau rhwystrau ariannol i'r grwpiau hyn gael effaith anghymesur ar gyfranogiad a dilyniant.

Mae'r Diploma Mynediad yn gymhwyster Lefel 3 sefydledig, sy'n cael ei reoleiddio gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA), ac sy'n cael ei gydnabod yn eang gan ddarparwyr addysg uwch. Mae'n cynnig llwybr hyblyg i addysg uwch, a ddarperir yn llawn-amser ac yn rhan-amser, ac mae wedi'i alinio'n agos ag anghenion y gweithlu. Yng Nghymru, cyflwynir darpariaeth ar draws colegau addysg bellach trwy Asiantaethau Dilysu Mynediad, gyda chynrychiolaeth gref mewn meysydd pwnc fel iechyd, gwyddorau cymdeithasol a biowyddorau.

Mae data sydd ar gael yn dangos bod dysgwyr y cynllun Mynediad yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd difreintiedig, ac yn aml nid ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn llwybrau mynediad traddodiadol i addysg uwch. Ar yr un pryd, mae deilliannau dilyniant yn gryf, gyda chyfran uchel o ddysgwyr yn symud ymlaen i addysg uwch ac yn aros yng Nghymru, gan gefnogi anghenion sgiliau lleol ac economïau rhanbarthol.

Yn fwy cyffredinol, mae tystiolaeth o ymchwil ym maes dysgu oedolion yn awgrymu bod cost yn rhwystr allweddol i gyfranogiad gan ddysgwyr sy'n oedolion, a bod cymorth ariannol yn cael yr effaith fwyaf ar y rhai â chymwysterau blaenorol is. Mae hyn yn dangos y gall buddsoddiad sy'n targedu darpariaeth hyblyg, ran-amser a hygyrch yn lleol chwarae rhan bwysig wrth ehangu cyfranogiad a chefnogi dysgu gydol-oes.

O safbwynt system, mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod dulliau cyllido’n cefnogi llwybrau i mewn i addysg drydyddol a thrwy’r system honno, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau trwy lwybrau anhraddodiadol. Gall alinio cyllid â'r llwybrau hyn gefnogi cyfranogiad a datblygiad, gan gyfrannu at ddeilliannau cymdeithasol ac economaidd ehangach.

5. Ble ddylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf mewn seilwaith ac ystadau addysg drydyddol yn y dyfodol?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

## Cymunedau a'r economi

1. Pa elfennau o ddata Canlyniadau Addysg Hydredol (LEO) y dylai Llywodraeth Cymru a Medr eu blaenoriaethu er mwyn deall deilliannau addysg drydyddol yn y farchnad lafur yn well?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

2. Ar wahân i LEO, pa ddata a gwybodaeth arall y dylid eu defnyddio'n well i ddeall deilliannau addysg drydyddol yn y farchnad lafur?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

3. Sut gall cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllido ymchwil gael ei defnyddio orau i ddenu cyllid ar lefel y DU a buddsoddiad gan y sector preifat?

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

4. Gall cydweithio rhwng sefydliadau ac arbenigo greu effeithlonrwydd ac effeithiau cydgasgliad cryfach ar gyfer addysgu, cyflogaeth ac Ymchwil, Dylunio ac Arloesedd. Pa dystiolaeth y gellir ei defnyddio i ategu hyn, ac a yw'n awgrymu pa fath o arbenigo ddylai ddigwydd?

Mae'n bwysig sicrhau bod cydweithio ac arbenigo yn cael eu cefnogi gan amgylchedd allanol sy'n cymell ac yn galluogi dulliau cydlynol ar draws y system drydyddol, gan gynnwys trwy gyllido, fframweithiau rheoleiddio a chynllunio strategol wedi'u halinio, tra'n cynnal hyder mewn safonau academaidd ac ansawdd profiad y myfyrwyr.

Mae rôl QAA fel corff sector yn ein darparu â chyfoeth o dystiolaeth y gall cydweithio rhwng sefydliadau a rhywfaint o arbenigedd gefnogi effeithlonrwydd a chryfhau cysylltiadau rhwng addysg, ymchwil a gweithgarwch economaidd rhanbarthol. Gall trefniadau cydweithredol alluogi sefydliadau i rannu arbenigedd, cynnal darpariaeth mewn meysydd pwnc penodol ac alinio'n agosach ag anghenion sgiliau lleol.

Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd yn anochel yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau fel trefniadau llywodraethiant, cymhellion sefydliadol ac aliniad â galw rhanbarthol. O ganlyniad, nid yw cydweithio ac arbenigo ynddynt eu hunain yn gwarantu effeithlonrwydd gwell na chanlyniadau cryfach.

O safbwynt addysg drydyddol, mae cydweithio a modelau cyflwyno ar y cyd eisoes yn nodwedd sefydledig o'r system, yn enwedig o ran darpariaeth trwy bartneriaeth a threfniadau cyflwyno ar y cyd. Mae gwaith QAA wrth adolygu darpariaeth sy'n seiliedig ar bartneriaethau yn tynnu sylw at y ffaith, lle mae cydweithio'n effeithiol, fod yna fel arfer ffiniau clir o ran cyfrifoldebau dros safonau academaidd, strwythurau llywodraethiant cadarn a chyfathrebu cryf rhwng partneriaid.

Mae yna risgiau posibl hefyd sy'n gysylltiedig â mwy o gydweithio neu arbenigo. Ystyriaeth allweddol yw'r effaith ar fynediad a llwybrau dysgwyr. Gall crynodiad mwy o ddarpariaeth mewn sefydliadau neu leoliadau penodol greu rhwystrau i ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n llai symudol yn ddaearyddol neu sy'n dibynnu ar ddarpariaeth leol. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol yng Nghymru, lle mae cyfranogiad wedi'i ddosbarthu'n fwy ar draws gwahanol lwybrau mynediad a chyfnodau yng nghylch bywyd y dysgwr.

Mae yna risgiau hefyd yn ymwneud ag ansawdd a safonau. Lle caiff darpariaeth ei chyflwyno ar draws nifer o bartneriaid, neu lle mae sefydliadau'n canolbwyntio ar feysydd penodol o ddarpariaeth, mae cynnal cysondeb o ran safonau academaidd a sicrhau profiad cydlynol i ddysgwyr yn dod yn fwy cymhleth. Felly mae trefniadau llywodraethiant clir, cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n dda a phrosesau sicrhau ansawdd effeithiol yn hanfodol.

Yn ogystal, efallai y bydd goblygiadau o ran ymreolaeth sefydliadol ac amrywioldeb. Mae gan Gymru sector trydyddol amrywiol gyda sefydliadau sy'n cyflawni gwahanol rolau ac amcanion. Mae yna risg y gall dulliau o gydweithio neu arbenigo nad ydynt yn ystyried yr amrywioldeb hwn leihau hyblygrwydd neu gyfyngu ar allu sefydliadau i ymateb i anghenion lleol neu anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Mae QAA hefyd yn chwarae rhan uniongyrchol wrth gynorthwyo'r sector i gydweithio ac arbenigo'n effeithiol. Trwy ein gwaith adolygu, gweithgaredd gyda'r aelodaeth a datblygu fframweithiau a chyfeirbwyntiau sector a rennir, mae QAA yn cynorthwyo sefydliadau i reoli ansawdd a safonau ar draws darpariaeth trwy bartneriaeth a modelau cyflawni mwy arbenigol, gan helpu i ddarparu hyder mewn ffurfiau o ddarpariaeth sy'n gynyddol gydlynol a chymhleth.

At ei gilydd, er y gall cydweithio ac arbenigo gynnig cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd ac aliniad â blaenoriaethau rhanbarthol, mae eu heffeithiolrwydd yn dibynnu ar sut y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol. O safbwynt ansawdd, bydd sicrhau bod y dulliau hyn yn cael eu hategu gan lywodraethiant cadarn, atebolrwydd clir a ffocws parhaus ar fynediad i ddysgwyr a phrofiad y myfyriwr yn hanfodol.

5. Pa gyfleoedd a bygythiadau y mae deallusrwydd artiffisial yn eu cynnig i ddyfodol addysg drydyddol? Pa oblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn sgil y defnydd o AI i ddarparwyr ac i bolisi Llywodraeth Cymru?

Mae datblygiad cyflym deallusrwydd artiffisial yn ail-lunio'r cyd-destun ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu ar draws y system drydyddol. Mae ei effaith eisoes yn cael ei theimlo yn y ffordd y mae dysgwyr yn mynd ati i astudio, sut mae darparwyr yn cynllunio asesiadau, a sut mae hyder mewn cymwysterau'n cael ei gynnal.

Mae dadansoddiad QAA o dystiolaeth ddiweddar gan y sector, gan gynnwys arolygon myfyrwyr, yn tynnu sylw at raddfa a chyflymder y newid yn y defnydd o AI cynhyrchiol. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod defnydd myfyrwyr o AI cynhyrchiol wedi cynyddu'n gyflym dros gyfnod byr, gyda mwyafrif helaeth y myfyrwyr bellach yn dweud eu bod yn defnyddio offer o'r fath, a chyfran yr un mor uchel yn eu defnyddio mewn perthynas â gwaith a gaiff ei asesu. Mae patrymau defnydd yn amrywio, gan gynnwys cynorthwyo â dealltwriaeth trwy grynhoi cynnwys neu egluro cysyniadau, yn ogystal â chyfran lai o ddefnydd mwy uniongyrchol wrth gynhyrchu allbynnau a gaiff eu hasesu.

Mae'r dystiolaeth hon hefyd yn tynnu sylw at y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn nodi eu bod yn defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn bennaf i wella ansawdd eu gwaith ac i arbed amser, tra gall pryderon ynghylch uniondeb academaidd, y risg o allbynnau anghywir a chyhuddiadau posibl o gamymddwyn weithredu fel ataliadau. Mae yna hefyd dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg bod sut mae asesiadau wedi'u cynllunio'n dylanwadu ar sut mae myfyrwyr yn defnyddio deallusrwydd artiffisial, gyda mwy o ddefnydd o AI i gynorthwyo dysgu lle mae'n ofynnol i fyfyrwyr esbonio neu amddiffyn eu gwaith.

Ochr-yn-ochr â defnydd cynyddol, mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at nifer o bryderon. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg eglurder ynghylch y math o ddefnydd a ganiateir, risgiau'n ymwneud â gwybodaeth gamarweiniol ac eiddo deallusol, yn ogystal â gor-ddibyniaeth bosibl ar AI a'i effaith ar ddatblygiad dealltwriaeth. Mae pryderon cynyddol hefyd ynghylch tegwch, gan gynnwys gwahaniaethau o ran mynediad at offer y mae angen talu amdanynt, amrywiad mewn canllawiau sefydliadol a gwahaniaethau o ran parodrwydd i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ar draws grwpiau myfyrwyr, a gall y cyfan effeithio ar ganlyniadau.

Bydd y materion hyn yn ffocws allweddol i weithgarwch QAA wrth ymgysylltu â'r sector a'r aelodaeth, wrth i ni barhau i weithio gyda darparwyr i ddatblygu dealltwriaeth a dulliau cyffredin o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn dysgu, addysgu ac asesu.

Mae ymgysylltiad QAA â'r sector yn dangos bod y materion hyn yn cael eu harchwilio'n weithredol. Trwy rwydweithiau fel y Grŵp Cynghori ar Uniondeb Academaidd a Rhwydwaith Uniondeb ac Asesu Cymru, yn ogystal â gwaith parhaus gyda'r Grŵp Cynghori Strategol y Myfyrwyr, mae QAA yn casglu mewnwelediad ynghylch sut mae sefydliadau a dysgwyr yn ymateb i ddefnyddio AI cynhyrchiol.

Mae QAA hefyd yn cynnal prosiect "cyflwr y wlad" sy'n archwilio effaith deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ar asesu. Mae'r gwaith hwn yn dwyn ynghyd ddadansoddiad o'r dystiolaeth sydd eisoes gan y sector, mewnwelediadau o drafodaethau staff a grwpiau ffocws myfyrwyr, yn ogystal â chanfyddiadau o weithgarwch adolygu QAA. Bydd y prosiect yn ffurfio sail i allbwn sy'n ymwneud â pholisi'r haf hwn, gan ategu dealltwriaeth gyffredin o arfer sy'n dod i'r amlwg a'i oblygiadau ar gyfer safonau academaidd.

Mae deallusrwydd artiffisial yn cynnig nifer o gyfleoedd i'r sector. Mae iddo'r potensial i gefnogi arloesedd mewn addysgu a dysgu, gan gynnwys dulliau dysgu unigol, mecanweithiau adborth gwell a ffurfiau newydd o gyflwyno digidol. Gall hefyd gynorthwyo â gwelliannau o ran effeithlonrwydd mewn rhai agweddau ar ddarpariaeth a gweinyddiaeth.

Ar yr un pryd, mae AI yn codi heriau sylweddol. Mae uniondeb academaidd a chynllunio asesiadau yn elfen allweddol. Wrth i ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ddod yn rhan annatod o arfer myfyrwyr, mae darparwyr yn adolygu fwyfwy sut mae dulliau asesu yn dangos dysgu dilys a sut mae camymddwyn academaidd yn cael ei ddiffinio a'i drin yn y cyd-destun hwn.

I ddarparwyr, mae'r goblygiadau'n canolbwyntio ar yr angen i addasu arferion asesu, sicrhau eglurder mewn disgwyliadau ynghylch y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial, a chynnal ymagwedd gadarn at uniondeb academaidd. Gall hyn olygu cynllunio asesiadau sy'n canolbwyntio'n fwy penodol ar ddangos dealltwriaeth, gan gynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr esbonio, cymhwyso a myfyrio ar eu dysgu.

I Lywodraeth Cymru, mae'r goblygiadau'n systemig yn bennaf. Wrth i ddeallusrwydd artiffisial ddod yn rhan annatod o ddysgu ac asesu, bydd angen deialog barhaus â'r sector i sicrhau bod polisïau a dulliau rheoleiddio’n parhau i fod yn gymesur ac yn ymatebol. Bydd hyn hefyd yn gofyn am well dealltwriaeth ar lefel y system o arferion sy'n dod i'r amlwg, wedi'i chefnogi gan rannu data amserol ac ymgysylltu â'r sector, er mwyn galluogi goruchwyliaeth gymesur ac i lywio gweithgaredd sicrhau a gwella parhaus. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cefnogi arloesedd, tra’n cynnal hyder mewn safonau a chymwysterau academaidd a sicrhau nad yw dulliau sy'n dod i'r amlwg yn creu anghydraddoldebau i ddysgwyr yn anfwriadol.

Efallai y bydd rôl hefyd i’w chwarae wrth sicrhau bod fframweithiau a chyfeirbwyntiau ar draws y sector yn parhau i esblygu mewn ymateb i newid technolegol. Mae gwaith QAA wrth ystyried sut mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei adlewyrchu mewn cyfeirbwyntiau o fewn y sector wedi'u hadnewyddu, gan gynnwys Datganiadau Meincnod Pwnc, yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal dealltwriaeth gyffredin o safonau wrth i ffurfiau newydd o ddysgu ac asesu ddatblygu.

At ei gilydd, mae deallusrwydd artiffisial yn cynnig cyfleoedd ar gyfer arloesedd a heriau sylweddol o ran cynnal safonau academaidd. Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu y bydd sut mae asesu'n cael ei gynllunio, sut mae disgwyliadau'n cael eu cyfleu a sut eir i’r afael â chydraddoldeb yn ganolog i sicrhau bod deallusrwydd artiffisial yn cynorthwyo dysgu yn hytrach na thanseilio hyder mewn cymwysterau.